CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# O gymodion i gymdogaeth

## Dysgu sut i hybu balchder dros lefydd

Crynodeb gweithredol

Tachwedd 2022

# Cyflwyniad

Mae papur gwyn 2022 Llywodraeth y DU Hybu Ffyniant Bro yn y Deyrnas Unedig yn nodi rhaglen polisi i gynyddu cyfleoedd a thwf economaidd trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb daearyddol. Wedi'i fframio fel hyn, mae'n glir bod y cysyniad o lefydd yn graidd i ffyniant bro. Yn unol â hyn, un o'r amcanion allweddol yw "adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn", gyda'r nod o gynyddu balchder dros lefydd ym mhob ardal o'r DU erbyn 2030.

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mewn blwyddyn arferol, mae 42% o'n deiliaid grant yn adrodd fod gan bobl mwy o falchder lleol ac ymdeimlad o berthyn oherwydd y gwasanaethau neu'r gweithgareddau yr ydym ni'n eu cefnogi i gynnal. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â'r ffaith fod ein prosiectau'n gyfranwyr allweddol i falchder lleol, gall ein gwaith a'r gwahaniaeth y mae ein cyllid yn ei wneud gyfrannu at well dealltwriaeth o ystyr balchder dros lefydd a sut i'w wella.

Yn yr adroddiad hwn, rydym ni'n rhannu enghreifftiau a dysgu allweddol i'n gwaith i ddangos sut y gall balchder lleol gael ei ddeall yn ymarferol a sut y gellir ei gynyddu a'i atgyfnerthu trwy weithredu ymarferol.

# Sut i hybu balchder dros lefydd

## 1. Grymuso pobl i ddylunio a llywio lle maen nhw'n byw

Mae grymuso cymunedol – rheolaeth asedau lleol a phenderfyniadau am ardal – yn ffactor allweddol o feithrin balchder dros lefydd. Mae ein gwaith yn helpu hwyluso hyn, gydag 16% o'n deiliaid grant yn adrodd bod eu gwaith yn golygu bod pobl yn teimlo mwy o berchnogaeth a rheolaeth dros benderfyniadau lleol.

- Mae'n rhaid i gyfranogiad fod yn ystyrlon – rhoi pŵer go iawn i'r gymuned wneud penderfyniadau a dyfarnu cyllid.
- Un ffordd o wneud hyn yw gofyn i sefydliadau gynnig eu syniadau i'r gymuned, a fydd yn pleidleisio dros ba brosiectau sy'n derbyn cyllid. Byddwch yn ofalus gyda'r dull hwn, oherwydd gallai fod yn afresymol disgwyl i aelodau o'r cyhoedd ddadlau teilyngdod gwasanaethau gwahanol iawn, neu i roi grwpiau sy'n darparu gwasanaethau'r un mor hanfodol yn erbyn ei gilydd.
- Dylech gynnwys cymunedau nad ydynt fel arfer yn cael y cyfle i leisio eu barn neu sy'n teimlo wedi'u heithrio. Gallai hyn olygu amrywio tîm eich hun, cymryd amser i feithrin perthnasoedd cryfach, neu gynnig ad-daliad ar gyfer amser pobl.
- Nid yw cryfhau perthnasoedd a meithrin ymddiriedaeth byth yn wastraff amser. Cefnogwch bobl i ddadlau ac anghytuno'n adeiladol. Gall lleoliadau niwtral a hwyluso annibynnol helpu gwahanol safbwyntiau gael eu clywed a'u trafod yn gadarnhaol.
- Mae gwasanaethau a gweithgareddau a ddylunnir ar y cyd yn cynnig sawl mantais, ond nid oes gan bobl ddatrysiadau bob amser i'r materion sy'n eu heffeithio. Dylech gyfuno profiadau bywyd a phroffesiynol, bod yn agored a gonest am yr hyn sy'n bosibl a pheidio.

## 2. Gwella a diogelu amwynderau lleol

Amwynderau yw conglfeini ffisegol cymuned. Maen nhw'n darparu gwasanaethau hanfodol o lefydd i bobl gysylltu, i fwyd a thrafnidiaeth. Lle nad yw amwynderau lleol yn bodloni anghenion cymuned, mae risg o beri anghydraddoldeb trwy brisiau cynyddol ac – mewn rhai achosion – safonau'n gostwng. Gall hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng trigolion yn teimlo'n falch o'r ardal neu deimlo ei bod wedi cael ei gadael y tu ôl.

- Mae perchnogaeth gymunedol yn cynnig datrysiad yma, ond sicrhewch nad yw'n gwneud adeiladau a thir yn faich i'r gymuned. Mae diwydrwydd dyladwy, er enghraifft amcangyfrifon costau cynnal yn seiliedig ar arolygon strwythurol

ac amcangyfrifon incwm realistig, yn hanfodol. Gall rheolwr prosiect â thâl helpu gyda hyn.

- Gall ail-fuddsoddi unrhyw elw o amwynderau a gynhelir gan y gymuned i achosion da helpu pobl weld achos ac effaith eu hamser a'u gwaith caled, gan annog mwy o gyfranogiad cymunedol.
- Gall grantiau a chanllawiau i wneud lleoliadau cymunedol yn fwy effeithiol o ran ynni fod yn hanfodol o ran eu cadw'n fforddiadwy i'w cynnal, a gallant hefyd rhyddhau arian i'w fuddsoddi mewn cynnwys amrywiaeth ehangach o aelodau'r gymuned.
- Yn aml, mae gan amwynderau cymunedol nod cymdeithasol, sy'n gallu bod yn allweddol er mwyn denu gwirfoddolwyr a chefnogaeth. Canfuodd The Plunkett Foundation nad oes llawer o siopau cymunedol yn gwneud elw mwy na £10,000, ond mae ymrwymiad gwirfoddolwyr lleol yn cyfrannu at eu "gwytnwch hynod".

## 3. Gwneud yr amgylchedd lleol i deimlo'n ddiogel ac edrych yn ddeniadol

Mae'r ffordd y mae ardal yn edrych a theimlo'n ganolog i bobl yn teimlo'n falch i fyw yno. Mae strydoedd glân yn aml yn cael eu nodi fel elfennau pwysicaf gwneud rhywle'n lle da i fyw, gyda dros 70% o bobl yn Lloegr yn dweud bod edrychiad eu cymdogaeth yn bwysig iddyn nhw.

- Gall helpu pobl ifanc i gael ymdeimlad o gyfrifoldeb dros ardal fod yn hanfodol wrth sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio a'i gofalu amdani. Dylech eu cynnwys wrth gynllunio, dylunio ac adeiladu mannau a chyfleusterau.
- Yn ogystal â chanolbwyntio ar gymdogaethau, dylech annog gwaith ar lefel lleol iawn. Pan fydd pobl yn teimlo'n atebol i'w cymdogion uniongyrchol am ofalu dros y stryd a'i wneud yn fwy deniadol yn weledol, maen nhw'n fwy tebygol o fod yn eiriolwyr dros weithredu ehangach yn y dyfodol.
- Mae gan lefydd sydd wedi'u tanddefnyddio fel arosfannau bws, cynteddau adeiladau a mannau y tu allan i siopau'r potensial i hwyluso cyfarfodydd ar hap lle gall pobl gyfarfod, sgwrsio a dod i adnabod ei gilydd, gan feithrin y cyfeillgarwch sy'n eu gwneud yn gymuned. Mae meinciau a phlanhigion sy'n gwneud y lle'n fwy croesawgar yn gwella'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd.
- Gellir hefyd annog y cyfarfodydd hyn mewn llefydd y mae pobl â diddordebau cyffredin yn ymgynnull yn naturiol. Er enghraifft, efallai bydd rhieni plant ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd mewn maes chwarae, a gallai pobl sy'n cerdded y ci ddod ar draws ei gilydd yn y parc. Gall gwella a chynnal y mannau hyn helpu perthnasoedd i ddyfnhau.

## 4. Cefnogi lleoliadau cymunedol i ffynnu a chynnig amrywiaeth o weithgareddau

Gall lleoliadau cymunedol gynyddu ymdeimlad pobl o falchder dros eu hardal, gan ddarparu man a rennir ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau, a lle i drigolion ddod ynghyd. Gallan nhw gynnwys canolfannau cymunedol, neuaddau pentref a llyfrgelloedd, yn ogystal â thafarndai a chaffis cymunedol. Mae pobl mewn ardaloedd lle mae balchder dros lefydd yn is yn aml yn nodi diffyg cyfleusterau cymdeithasol fel problem allweddol.

- Mae angen i leoliadau fod yn hygyrch a chynhwysol. Gall yr adnewyddiadau sydd eu hangen ar gyfer hyn gynnig manteision ychwanegol, er enghraifft bydd gwneud lleoliadau'n fwy hygyrch i bobl anabl hefyd yn eu gwneud yn fwy croesawgar i bobl hŷn a rhieni babanod a phlant bach.
- Mae rhoi lleoliadau gyda phwrpas cul i reolaeth gymunedol yn tueddu eu gwneud yn hybiau cymunedol ehangach

yn naturiol. Mae llyfrgelloedd a thafarndai cymunedol, er enghraifft, yn aml yn cynnal dosbarthiadau, grwpiau cymorth a chyfarfodydd cymunedol, ynghyd â'u swyddogaethau cynradd.

- Mae cynnal gweithgareddau gyda'r nos yn gallu eu gwneud yn fwy hygyrch, oherwydd gall pobl sy'n gweithio llawn amser neu sydd mewn addysg llawn amser gymryd rhan. Ond mae angen ystyried sut y gall pobl gyrraedd gartref yn ddiogel, boed yw hynny trwy ddarparu llefydd parcio am ddim, rhannu manylion trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, neu sicrhau bod digwyddiadau'n hygyrch trwy lwybrau cerdded golau.
- Gallai darparu gormod o weithgareddau fod yn rhy ddrud ar gyfer lleoliad cymunedol, tra bod peidio â darparu digon yn gallu cyfyngu ar yr atyniad i bobl leol. Dechreuwch ar raddfa fach, ond byddwch yn barod i ychwanegu opsiynau wrth i chi ddysgu rhagor am ddewisiadau ac anghenion lleol.

## 5. Crëwch gyfleoedd i bobl gymryd rhan ac adeiladu cysylltiadau cymunedol ehangach

Er mwyn parhau i adeiladu balchder lleol, mae angen cyfleoedd cyfranogi ar bobl fel eu bod yn cadw dod ynghyd a datblygu eu cysylltiadau. Mae tua dau draean o'n deiliaid grant yn darparu cyfleoedd i bobl gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddynt, ac mae'r grantiau hynny'n fwy tebygol na'r cyfartaledd i hefyd gynyddu cyswllt cymdeithasol, gwella iechyd meddwl, codi hunanhyder a lleihau unigrwydd.

- Mae gweithwyr ar y rheng flaen, gan gynnwys athrawon, nyrsys a staff siopau, mewn sefyllfa dda i adnabod pobl unig neu ynysig. Gyda hyfforddiant, gallan nhw arwyddbostio'r unigolion hynny i wasanaethau cymunedol a chyfleoedd cyfranogi.
- Ni fydd diddordeb gan bawb yn y gymuned mewn cyfranogiad gweithredol; ceisiwch ffocysu egni ac adnoddau ar y rhai hynny sy'n dangos diddordeb, oherwydd mae ansawdd y cyfranogiad yn bwysicach na'r nifer o bobl sydd ynghlwm.
- Gall cyfranogiad sy'n gysylltiedig â dathliadau cenedlaethol fod yn haws i ymgysylltu pobl ag ef. Roedd rhaglen Ysbryd 2012 yn adeiladu ar etifeddiaeth, brwdfrydedd ac ysbryd cymunedol Gemau Olympaidd 2012 i ddod â phobl ynghyd.
- Cofiwch, bydd pobl yn gallu ymrwymo gwahanol feintiau o amser ac ynni, felly mae'n werth cynnig amrywiaeth o bwyntiau mynediad trwy wahanol rolau a thasgau, o bresenoldeb sylfaenol i wirfoddoli'n llawn.
- Wrth ddyrannu rolau gwirfoddol, gofynnwch i bobl fod yn eglur am eu sgiliau a diddordebau, fel y gallant wneud tasgau y maen nhw'n eu mwynhau. Yn yr un modd, sicrhewch fod rhywfaint o gylchdroi fel bod pobl yn gallu rhoi cynnig ar wahanol bethau a chyfarfod â'r amrywiaeth ehangaf o bobl newydd â phosibl.

## 6. Adfywio ac ail-ddychmygu canol trefi a'r stryd fawr

Gyda nifer yr ymwelwyr yn gostwng a siopau'n cau ledled y wlad, mae'n glir bod nifer o strydoedd mawr y DU'n dirywio. Mae'r awyrgylch hwn o ddiffyg twf yn cyfrannu'n fawr at deimladau o gael eu gadael y tu ôl mewn sawl cymuned, gyda Power to Change yn nodi bod mwy na dau draean o bobl yn poeni am ddirywiad y stryd fawr a'i effaith ar falchder dinesig.

- I raddau helaeth, dirywiad y stryd fawr yw dirywiad manwerthu, ond nid yw hynny'n golygu mai adfer manwerthu yn unig yw'r datrysiad. Mae cyfle nawr i wneud strydoedd mawr yn fwy cymunedol ac amrywiol, gan gyfuno manwerthu cwsmeriaid, busnesau cymunedol, llefydd cyfarfod a mannau creadigol yn fwy amrywiol.

- Gallai cymuned stryd fawr amrywiol hefyd gynnwys undebau credyd, canolfannau cymunedol, gorsafoedd llogi sgwteri symudedd, digwyddiadau dros drom caffis, theatrau, parciau poced, fflatiau ac orielau mewn unedau gwag. Mae hyn yn cynnig cyfuniad iach o fanwerthu, diwylliant, unedau preswyl a chefnogaeth gymunedol.
- Dylid cynllunio tai ar y stryd fawr yn ofalus iawn a'u hychwanegu mewn camau er mwyn osgoi creu llif sydyn o ddatblygiad sy'n cynyddu prisiau. Dylid gweithio gyda phobl sydd eisoes yn byw'n agos er mwyn dysgu'r hyn y maen nhw ei eisiau yn yr ardal, er mwyn tyfu cymuned organig, amrywiol. Bydd hyn yn helpu osgoi gwrthdaro rhwng trigolion presennol a rhai newydd.
- Wrth ddarparu tai neu fannau busnes am brisiau fforddiadwy, sicrhewch fod y rhent a gynigir yn wirioneddol fforddiadwy i bobl leol a mentrau cymdeithasol. Mae rhai o'n deiliaid grant yn darparu llefydd ar 'rent byw', sydd wedi'i feincnodi yn erbyn lefelau incwm lleol a'i gyfyngu arno fel nad yw'n mynd y tu hwnt i chwyddiant.

## 7. Adfer a defnyddio adeiladau treftadaeth i wella cysylltiad pobl â llefydd, teulu a hanes

Canfuodd Historic England fod 92% o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gyda chynllun adfywio hanesyddol yn teimlo ei fod wedi cynyddu balchder lleol, ac mae 80% o bobl yn teimlo fod treftadaeth yn gwneud eu hardal yn lle gwell i fyw. Canfuodd The What Works Centre for Wellbeing fod gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn adeiladau treftadaeth yn gallu gwella ymdeimlad o berthyn a balchder, a gall bod o amgylch llefydd hanesyddol wella balchder pobl dros lefydd.

- Gall defnyddiau cymunedol o adeiladau treftadaeth gynnwys caffael hanes lleol i feithrin ymdeimlad o hunaniaeth gyffredin; defnyddio adeiladau treftadaeth fel lleoliadau cymunedol; neu roi addysg wrth wraidd adfer treftadaeth, sy'n gallu bod yn bwysicach i gysylltu hen adeiladau gyda balchder dinesig na'r strwythurau ffisegol eu hunain.
- Mae pobl o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd llai breintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn treftadaeth, ac felly'n llai tebygol o deimlo'r balchder dros lefydd y mae asedau hanesyddol yn ei gynnig. Gall gweithgareddau allgymorth penodol fynd i'r afael â hyn, gan ei gwneud hi'n eglur fod treftadaeth leol i bawb yn y gymuned.
- Mae angen rheoli a chynnal asedau treftadaeth sydd wedi'u hadfer yn ofalus. Os ydynt yn cael eu gadael i ddirywio, gallan nhw ddod yn safleoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol a sbwriel, gydag effaith negyddol ar falchder lleol.
- Anogwch bobl i gymryd rhan trwy gyfleoedd gwirfoddoli. Gall helpu gyda gwaith adfer ac archeolegol, er enghraifft, roi ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb i bobl dros eu safleoedd treftadaeth lleol.

## 8. Caffael diwylliant i ddod â phobl ynghyd

Participation in cultural activities can increase pride in place, and our research has found that projects offering arts and heritage activities are more likely than others to result in an increased sense of community pride and belonging.

- Gall teimladau anymwybodol o berchnogaeth a phriodoldeb wneud rai pobl i deimlo fod mannau fel llyfrgelloedd ac amgueddfeydd 'ar eu cyfer nhw', a gallan nhw wneud rhai pobl i deimlo'n gwrthwyneb. Gall gweithgareddau annisgwyl yn y mannau hyn, e.e. sy'n cynnwys sŵn a rhyngweithiad, helpu pawb i deimlo'n gyfartal ac yn rhan o brofiad newydd.
- Dylai gweithgareddau fel y theatr, dawns

a pherfformiad fod yn hygyrch i bob aelod o gymuned amrywiol. Mae hyn yn golygu os yw propiau a gwisgoedd yn cael eu darparu, dylen nhw fod yn addas ar gyfer gwahanol liwiau croen, mathau o wallt a siapiau corff, a dylent adlewyrchu gwahanol gefndiroedd.

- Os yw digwyddiadau untro fel gwyliau'n llwyddiannus, ceisiwch fanteisio ar y momentwm a'u cynnal yn fwy rheolaidd. Anogwch gyfranogwyr i ddod yn wirfoddolwyr a chymerwch ran mewn digwyddiadau yn y dyfodol, ymchwiliwch i gyfleoedd ariannu a chasglwch adborth fel bod pobl leol yn teimlo eu bod yn rhan o lwyddiant parhaus y digwyddiad.

**I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan:**

https://www.tnlcommunityfund.org.uk/insights